



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Ebrill 2015 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 April 2015 at 6.30pm
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*),

John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Clive Davies, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Neal Jones,
Richard Jones, Catrin Miles, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod yn cynnwys Mr Bruce Sinclair, gohebydd gyda'r "Western Telegraph" a'r "Tivy-Side". Croesawyd hefyd garfan o fudiad "Newid Cam", gwasanaeth mentora cymheiriaid ar gyfer cyn-filwyr. Llongyfarchwyd Clwb Pêl-droed Aberteifi ar ei fuddugoliaeth yn ennill Cwpan Llun y Pasg 2-0 yn erbyn Pencader. Estynnodd y Maer hefyd gydymdeimlad y cyngor i'r Cyng. Clive Davies a golodd ei famgu, Mrs Tegwen Williams, yn ddiweddar.

The Mayor, Cllr Graham Evans, welcomed all to the meeting including Mr Bruce Sinclair, a reporter with the "Western Telegraph" and the "Tivy-Side" newspapers. He also welcomed officers of "Change Step", a peer mentoring service for military veterans. Cardigan AFC was congratulated on winning the Easter Monday Cup 2-0 against Pencader. The Mayor extended the sympathy of members to Cllr Clive Davies whose grandmother, Mrs Tegwen Williams, had passed away recently.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng./Cllr Llwyd Edwards (*yn yr ysbyty/hospitalised*),
Mark Cole (*gwaith/work commitments*), Jane Roche (*gwaith/work commitments*).

3. Cyflwyniad: "Cam Ymlaen" / Presentation: "Change Step".

Cafwyd cyflwyniad byr gan swyddogion o'r elusen, sef gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gyn-filwyr ar gyfer cyn-filwyr, a'i nod yw cefnogi'r rhai hynny sy'n dymuno cael cymorth ar gyfer problemau a gawsant o ganlyniad i ddyletswydd filwrol neu weithredol. Mae "Newid Cam" yn gweithio ar y cyd â chyrff statudol a sefydliadau perthnasol eraill i sicrhau fframwaith hygyrch a chynhwysol ar gyfer cyfeirio unigolion at y gwasanaeth mwyaf priodol. Mae'r gwasanaeth ar gyfer cyn-filwyr milwrol, cyn-aelodau o'r gwasanaethau brys, goroeswyr trawma ac aelodau'r teulu.

Diolchodd y Maer i'r swyddogion am eu cyflwyniad.

A short presentation was given by officers of the charity "Change Step" which is a service delivered by veterans for veterans, and aims to support those seeking help for problems encountered as a result of military and operational duty. "Change Step" works collaboratively with statutory bodies and other relevant organisations to ensure an accessible and comprehensive framework by which to guide individuals towards the most appropriate service. The service supports military veterans, former members of the emergency services, trauma survivors and their family members.

The Mayor thanked the officers for their presentation.

4. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters
Cyng./Cllr Catrin Miles	Cynllunio/Planning: Tenby Road

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Mawrth.

Confirmation of Minutes of 3 March Council Meeting.

Tud. 970, eitem 14(b): Cynigiwyd y Dirprwy Faer Etholedig gan y Cyng. Gwynfi Jenkins ac nid y Cyng. John Adams-Lewis.

Page 970, item 14(b): The Deputy Mayor Elect was proposed by Cllr Gwynfi Jenkins, and not Cllr John Adams-Lewis.

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y cofnodion yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

With the above amendment, the minutes were proposed as correct by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Dai Brabrook.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 965, eitem 6: Cadarnhaodd y Cyng. Catrin Miles bod y fantolen a baratowyd gan y clerch i derfynu Apêl Llifogydd Aberteifi yn gywir.

Tud. 966, eitem 9: Cadarnhaodd y Cyng. Clive Davies y byddai cyfeiriad newydd ebost y cyngor yn weithredol tua diwedd yr haf.

Tud. 969, eitem 11[261]: Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod aelod o staff Telemat wedi mynychu'r cyfarfod yn ei le a chaiff argymhellion eu cyflwyno i Bartneriaeth Canol y Dref.

Tud. 971, eitem 16(b): Cadarnhaodd y Cyng. Catrin Miles y byddai'r pwll nofio yn elwa o Grant Cymunedol y cyngor sir.

Page 965, item 6: Cllr Catrin Miles confirmed that the balance sheet prepared by the clerk to finalise the Cardigan Flood Appeal was correct.

Page 966, item 9: Cllr Clive Davies confirmed that the new town council e-mail address would be in force by the end of the summer.

Page 969, item 11[261]: Cllr Clive Davies stated that a member of staff had attended the meeting and that recommendations for improvements would be presented to the Town Centre Partnership in due course.

Page 971, item 16(b): Cllr Catrin Miles confirmed that the swimming pool would benefit from the county council Community Grant.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer am fis Mawrth i'r aelodau yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary for March was distributed to members at the meeting.

8. Cynllunio / Planning.

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A140851	25 Mile, 1 Pendre	External alterations to shop front and side elevation	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (3)
A141018	Maesydre, Aberystwyth Road	Change of use from 2 no. flats to 1 no. flat	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (2)
A150041	Station Road, Castle Street	Erection of 2 no. of 2 storey 3 bedroom houses and associated works. Replacement of previous application A130205	<i>Cais wedi ei wrthod.</i> <i>Application has been refused</i>

9. Biliau wedi eu talu / Bills paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/3/15	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
2/3/15	Jilly Flowers: <i>Cyflwyniad</i> /Presentation to Mrs Sue Lewis	A13	4086	£15.95 (0.00)
18/3/15	BT: <i>Ffôn</i> /Telephone	A19	4087	£74.56 (12.43)

24/3/15	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd.</i> Simultaneous translation (3/3/15)	A17	4088	£98.40 (16.40)
18/3/15	Jewson: Sadolin, etc.	C2	4089	£39.96 (6.66)
1/4/15	L. W. Jones: <i>Cyfflog y Clerc/Clerk's Salary</i> (<i>Mawrth/March</i>)	A3	4090	£748.88 (0.00)
31/3/15	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd.</i> Rent of Conference Room (3/3/15, 17/3/15)	A7	4091	£60.00 (10.00)
31/3/15	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mawrth/March)</i>	A18	4092	£170.10 (28.35)
31/3/15	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £111.27 (<i>Ion, Chwef., Mawrth.— Jan., Feb., March</i>)	A15	4104	£672.87 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Dai Brabrook bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Neal Jones.

Cllr Dai Brabrook proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Neal Jones.

Derbyniadau/Receipts:	9/2/15	Lloyds Bank: <i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£2.66
	4/3/15	Cardigan RFC (<i>Prydles/Lease</i>)	£250.00
	9/3/15	Lloyds Bank: <i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£2.34
	16/3/15	Cardigan Bowls Club (<i>Prydles/Lease</i>)	£400.00

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Mark Cole (*anfonwyd e-bost*):

- (i) Lôn Bingham: Mae'r Cyng. Cole yn bles bod cyfreithwyr Tai Cantref wedi mynegi eu bwriad i ofyn i Gyngor Sir Ceredigion gynnal a chadw'r lôn yn unol â chytundeb trosglwyddo'r cyfrifoldeb yn y 1990au cynnar pan brynwyd y tir oddi wrth Gyngor Dosbarth Ceredigion i adeiladu Llys Owen

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod apêl Tai Ceredigion Cyf yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion i wrthod caniatâd i adeiladu nifer o aneddau ar y tir ar Ffordd Dinbych y Pysgod wedi ei wrthod gan Yr Arolygiaeth Gynllunio. Y prif faterion yw effaith y datblygiad ar gymeraid a gwedd yr ardal a hefyd prinder mannau agored. Byddai'r aneddau yn orlawn i'w cymharu â'r tai cyfagos.
- (ii) "Y Cardi Bach": Mae'r gwasanaeth sydd yn rhedeg o Aberteifi i Gei Newydd bellach wedi ail-ddechrau. Bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu'r gwasanaeth trwy Gyngor Sir Ceredigion yn ystod 2015-16. Bydd yn rhedeg am chwe diwrnod yr wythnos dros yr haf hyd 31 Hydref a bydd gwasanaeth ddydd Gwener a Sadwrn dros y gaeaf hyd 31 Mawrth. Mae'r gwasanaeth (Rhif 522) hefyd yn rhedeg ar ddydd Iau drwy gydol y flwyddyn i nifer o bentrefi. Mae'r amserlen ar gael ar wefan y cyngor sir (www.ceredigion.gov.uk) a gwefan Llwybr Arfordir Ceredigion (www.ceredigioncoastpath.org.uk).
- (iii) Mae'r amheuan ynglŷn â pherchnogaeth y cysgodfeydd bysiau yn parhau. Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis ddilyn y trywydd.
- (iv) Mae'r Cyng. Adams-Lewis a'r Cyng. Mark Cole wedi cyfarfod â Mr Tom Delph-Janiurek, Prif Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth y cyngor sir, ynglŷn â'r Glirffordd. Y modd rhataf byddai peintio llinellau melyn dwbl gydag arwyddion pwrpasol; bydd y gost oddeutu £4,000.
- (v) Dywedodd Mr Neil Garrod bod grant i'w gael i ddiweddarau goleuadau'r strydoedd ar ddealltwriaeth bod dau bris oddi wrth Derwen Lighting Cyf. a Western Power yn cael eu derbyn.
- (vi) Cytunwyd bod cyngor y dref yn anfon llythyr o gymeradwyaeth at adran briffyrdd y cyngor sir am ansawdd gwych y gwaith ar welliannau'r Ffordd Fawr.

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Partneriaeth Canol y Dref: Bydd yr ymgyrch "Cefnogwch Ganol Tref Aberteifi" yn cael ei ail-lansio gyda gwobr misol o £50 yn rhoddedig gan Fasnachwyr Aberteifi. Cytunodd cyngor y dref dalu am bosteri i hyrwyddo'r ymdrech.
- (ii) Dywedodd y Cyng. Miles bod gwaith i'w ddechrau cyn y Nadolig yn Stryd y Castell gan Wales & West Utilities. Bydd ganddi rhagor o wybodaeth erbyn yr is-bwyllgorau.
- (iii) Dymunodd y Cyng. Miles wadu'n llwyr y sibrydion ei bod hi yn trefnu cyngerdd ar y cei i redeg ar y cyd â chyngerdd Cadwgan yn y castell gyda grwpiau Bellowhead a 9Bach ar 25 Gorffennaf. Ychwanegodd fod y datganiadau yn hollol anghywir ac yn gelwyddau noeth.

(a) Cllr Mark Cole (e-mailed):

- (i) Cllr Cole was pleased to report that Tai Cantref's solicitors have expressed an intention to request Ceredigion County Council to maintain Bingham Lane as per the transfer agreement from the early 1990s when the land was purchased from Ceredigion District Council to build Llys Owen.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis reported that the Tai Ceredigion Cyf. appeal against the decision of Ceredigion County Council to refuse permission to build a number of houses on the land off Tenby road had been dismissed by The Planning Inspectorate. The main issues are the effect of the development on the character and appearance of the area and whether the proposal provides sufficient open space. The dwellings would appear crowded and cramped when compared with those in close proximity.
- (ii) The "Cardi Bach" coastal route service from Cardigan to New Quay is now up and running. It will be provided in 2015-16 to Ceredigion County Council by the Welsh Government. A six day per week service will be maintained throughout the summer until 31 October with a Friday and Saturday service throughout the winter months until 31 March. The service (No. 522) also operates on Thursdays throughout the year to a number of villages along the route. The timetable is available on the county council website (www.ceredigion.gov.uk) and the Ceredigion Coast Path website (www.ceredigioncoastpath.org.uk).
- (iii) The question of ownership of the town's bus shelters remains unresolved. Cllr Adams-Lewis will pursue the issue with the county council once more.
- (iv) Cllr Adams-Lewis and Cllr Cole have met with Mr Tom Delph-Janiurek, Senior Engineer Traffic Management, regarding the revised options for the Cardigan Clearway. The cheapest option would be introducing a new prohibition order of waiting and loading (double yellow lines with kerb blips and signage) at an estimated cost of £4,000.
- (v) Cllr Adams-Lewis stated that Mr Neil Garrod had informed him that a footway lighting grant was available for updating street lights on production of two estimates from Derwen Lighting Ltd. and Western Power.
- (vi) It was agreed that the town council would write a letter to the county council highway department commending them on the quality of the work on the High Street improvements.

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) The Town Centre Partnership "Support Cardigan Town Centre" campaign will be re-launched with a monthly prize of £50 donated by Cardigan Traders. The town council has agreed to pay for advertising posters to be printed.
- (ii) Cllr Miles mentioned that Wales & West Utilities would be commencing work at Castle Street before Christmas. More information will be gathered before the sub-committee meeting.
- (iii) Cllr Miles has categorically refuted a rumour circulating that she was organising a concert on the Prince Charles quayside on the 25 July which would be in conflict to the Cadwgan-organised concert featuring Bellowhead and 9Bach. She added that the rumour was totally false and a complete fabrication.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
1	CSC/CCC: (Allan Lewis): <i>Cymorth Ariannol 2014-15 / Grant Aid 2014-15: Cae Chwarae Pentop Playing Field. Cadarnhad bod telerau grant wedi eu trosglwyddo i 2015-16.</i> Confirmation that the grant arrangements have been transferred to 2015-16	<i>Dyweddod y Cyng. Catrin Miles bod cyfarfodydd gyda'r datblygwyr yn mynd yn eu blaen.</i> Cllr Miles stated that the sub-committee would be meeting imminently and that work on the site would be commencing.
2	CSC/CCC: <i>"Diogel yng Ngheredigion" / "Safe in Ceredigion": Materion diogelwch cymunedol gan gynnwys gwasanaethau tân a phlisma lleol.</i> Community safety matters including local fire and policing services. Penmorfa, Aberaeron, 27/4/15, 7.00-9.00pm	<i>Poster i wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.</i> Posters displayed in notice boards.

3	CSC/CCC: (Bronwen Morgan): <i>Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Gyfunol / UK Parliamentary General Election, 7/5/15</i>	<i>Posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau ac yn y llyfrgell.</i> Posters displayed in notice boards and library.
4	CSC/CCC: (Paul Arnold): <i>Gwybodaeth am ailgysylltu gwasanaethau'r toiledau.</i> Information regarding reconnecting public conveniences services.	<i>Mae'r Cyng. Graham Evans a Cyng. Dai Brabrook i archwilio'r ddau adeilad cyn symud ymlaen.</i> Cllr Graham Evans and Cllrs Dai Brabrook will inspect the premises before proceeding.
5	CSC/CCC (Tom Delph-Janiurek): <i>Gwybodaeth am ddeddfwriaeth parcio ar y glirffordd.</i> Information regarding legislation pertaining to parking on the clearway.	<i>Nodwyd. Trafodwyd tan eitem 10(b).</i> Noted. Discussed under item 10(b).
6	CSC/CCC (Parry Davies): <i>Ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth Cartrefi Preswyl Cyngor Sir Ceredigion.</i> Consultation on the future provision of Ceredigion County Council Residential Care Homes. Cardigan Leisure Centre, 13/4/15, 3.30-6.30pm.	<i>Posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.</i> Posters displayed in notice boards.
7	CSC/CCC (Naomi McDonagh): <i>Diweddariad Cymdogion Cynnes.</i> Update.	<i>Wedi ei flaenyrru i aelodau.</i> Forwarded to members on 30/3/15.
8	CSC/CCC (Ann Eleri Jones): <i>Canolfannau Croeso Ceredigion (Gwybodaeth am doriadau yn y gwasanaeth).</i> Tourist Information Centres (Information regarding reduction in opening hours)	<i>Wedi ei flaenyrru i aelodau.</i> Forwarded to members on 10/3/15.
9	Elin Jones AC/AM: <i>Diweddariad am drefniadau "Y Cardi Bach".</i> Update of the coastal bus service	<i>Nodwyd. Gweler eitem 10(b)(ii).</i> Noted. See item 10(b)(ii)
10	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Dydd Galw Heibio, 29/4/15, 2.00-7.00yh, Neuadd Bentref Bryncelyn, Aberaeron.</i> Natural Resources Wales: A drop-in event at Llwynycelyn Village Hall, Aberaeron, 29/4/15, 2.00-7.00pm	<i>Wedi ei flaenyrru i aelodau.</i> Forwarded to members on 30/3/15.
11	Quartzcoat: <i>Pris am waith ar y Strand.</i> Quotation for work at the Strand	<i>Nodwyd.</i> Noted.
12	Cardigan Royal British Legion: <i>Ffurflen gais a mantolen am rodd ariannol.</i> Application form and balance sheet for grant.	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
13	Cruse Bereavement Care: <i>Ffurflen gais am rodd ariannol.</i> Application form for grant.	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
14	Cymdeithas Rheilffordd y Cardi Bach: <i>Ymateb/Response</i> regarding grant aid protocol	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
15	Gŵyl Fawr Aberteifi: <i>Ffurflen gais am rodd ariannol.</i> Application form for grant.	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
16	Menter Aberteifi (Gŵyl Afon a Bwyd/River & Food Festival): <i>Mantolen ddiweddaraf/Latest financial accounts.</i>	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
17	Cardigan Classic Car Club: <i>Ffurflen gais a mantolen am rodd ariannol.</i> Application form and balance sheet for grant.	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
18	Llywodraeth Cymru: <i>Comisiwn Ffiniau Democratiaeth Leol Cymru (Newyddion y Gwanwyn).</i> Welsh Government: Local Democracy and Boundary Commission for Wales (Spring News)	<i>Wedi ei flaenyrru i aelodau.</i> Forwarded to members on 10/3/15.
19	Morgan & Davies, Property Advisers, Lampeter: <i>Prydles y Clwb Bowls.</i> Cardigan Bowls Club lease.	<i>Copi i'w ddanfon at gyfreithiwr y cyngor.</i> Copy to be forwarded to the council's solicitor.
20	<i>Tai Canolbarth Cymru: Lansio Ymgynghoriad – "Rhan-berchnogaeth gyda Rhwyd Ddiogelwch".</i> Mid-Wales Housing: Consultation Launch – "Shared Ownership with a Safety Net". 23/4/15, 10.30am, Gwesty'r Parc, Aberystwyth.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
21	RAY Ceredigion: <i>Diweddariad am ariannu sesiynau chwarae ar draws Ceredigion.</i> Update on the latest funding of open access play sessions across Ceredigion.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
22	<i>Cadwgan: Gwahoddiad i agoriad cymunedol y Castell.</i> Invitation to the community opening of the Castle, 14/4/15, 10.30am.	<i>Wedi ei flaenyrru i aelodau.</i> Forwarded to members on 7/4/15.
23	BDO Archwilwyr Allanol / (External Auditors): <i>Dogfennau am ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-15 a 2015-16.</i> Documents for end of financial year 2014-15 and 2015-16.	<i>Nodwyd.</i> Noted.

24	Bachan Deche: Adroddiad mis Mawrth. Handyperson's March report.	I'w drafod tan eitem 15. To be discussed under item 15.
----	--	--

- Allan Lewis:** *Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.*
Head of Economic and Community Development Services.
- Ann Eleri Jones:** *Rheolwr Twristiaeth a Marchnata /* Tourism and Marketing Manager
- Bronwen Morgan:** *Prif Weithredwr.* Chief Executive.
- Naomi McDonagh:** *Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Gwella Iechyd /*
Environmental Health Officer – Health Improvement
- Parry Davies:** *Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw.*
Strategic Director for Care, Protection and Lifestyle.
- Paul Arnold:** *Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.*
Head of Municipal and Environmental Service
- Tom Delph-Janiurek:** *Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth /* Senior Engineer Traffic Management

12. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences

Gweler eitem 11[4].

See item 11[4].

13. Adroddiad Ariannol 2014-15

Financial Report 2014-15.

Cyflwynodd y clerc y fantolen ariannol yr oedd wedi ei chysoni am y flwyddyn 2014-15. Eglurodd rannau ohoni oedd yn berthnasol megis y taliadau am y goleuadau Nadolig a'r grant a dderbyniwyd gan Balchder Pentrefi. Bydd yr archwilydd mewnol yn archwilio'r fantolen ar 22 Ebrill. Diolchwyd i'r clerc gan y Maer am gyflwyno'r cyfrifon mewn da bryd unwaith eto.

The clerk presented the annual report of the council's finances which were reconciled for the year 2014-15. The categories pertaining to the Christmas lights and the income received from the Balchder Pentrefi initiative were fully explained to members. The internal auditor will audit the accounts on 22 April. The Mayor thanked the clerk for producing the accounts in good time this year again.

14. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145).

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972).

1—Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Committee	£750
2—Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau	£200
3—Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion Young Farmers' Clubs	£600
4—Menter Aberteifi (Gŵyl Afon a Bwyd / River & Food Festival)	£500
5—Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care	£200
6—Gŵyl Fawr Aberteifi	£3,500
7—Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Memorial Pool & Hall	£1,500
8—Gŵyl Crugmawr	£400
9—North Cardigan Action Support Group	£600
10—Clwb Ceir Clasuro Aberteifi / Cardigan Classic Car Club	£400
11—Y Llang Brydeinig / Royal British Legion Cardigan Branch	£200

Trafodwyd yr argymhellion uchod. Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis. Roedd pawb oedd yn bresennol yn gytûn.

Penderfynwyd bod y clerc yn anfon ffurflen gais ymlaen at bawb wedi iddynt wneud cais am gymorth ariannol. Rhaid derbyn mantolen ddiweddaraf y mudiad hefyd. Disgwylir i bawb sydd o fewn agosrwydd cymhedrol i Aberteifi fynychu'r noson cyflwyno gwobrau. Bydd gan y cyngor hawl i ddiddymu'r rhodd pe anwybyddir y canllawiau uchod. Rhaid i'r ceisiadau fod wedi eu derbyn cyn 1 Mawrth neu 1 Medi fel sydd yn berthnasol.

The above recommendations were proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr John Adams-Lewis. All members present were in favour.

It was agreed that the clerk forwards an application form to all organisations submitting an application for financial aid. It is imperative that the latest balance sheet or financial accounts are forwarded with the application form. It is expected that a representative from each

organisation who resides within close proximity attends the grant presentation evening. The council reserves the right to withdraw payment of grant if the above mentioned directives are not adhered to. The applications must be received before either 1 March or 1 September whichever period is relevant.

Awgrymwyd bod y cyngor yn cefnogi ysgolion lleol pan ddaw ceisiadau am gymorth ariannol i gynorthwyo costau teithio i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

It was recommended by council to support local schools with financial aid to cover travelling expenses to the Urdd National Eisteddfod.

Datganiad diddordeb/Declaration of interest:

<i>Rhif y cais / Application 6, 9</i>	Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis
<i>Rhif y cais / Application 6</i>	Y Cyng. / Cllr Graham Evans
<i>Rhif y cais / Application 6</i>	Y Cyng. / Cllr Gwynfi Jenkins
<i>Rhif y cais / Application 8</i>	Y Cyng. / Cllr Richard Jones
<i>Rhif y cais / Application 6, 7, 9</i>	Y Cyng. / Cllr Catrin Miles

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a chynhaliwyd eitem 14 mewn pwyllgor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Gwynfi Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed item 14 in committee.

The above was proposed by Cllr Gwynfi Jenkins and seconded by Cllr Melfydd George.

15. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Mawrth.

Confirmation of 17 March Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod y cofnodion yn gywir.

It was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Clive Davies that the minutes were correct.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 976: Dywedodd y Cyng. Brabrook bod y fainc yn awr wedi ei chywiro a'i pheintio ac wedi ei gosod ar y llwybr arfordir gerllaw Golwg y Môr.

Tud. 976: Yn dilyn ymddiswyddiad y Cyng. Mark Cole o fwrdd ymddiriedolwyr Cadwgan, cytunwyd bod y cyngor yn gofyn iddo ailystyried ei benderfyniad hyd nes i fater arwyddion y dref gael ei ddatrys.

Page 976: Cllr Brabrook confirmed that the bench had now been repaired and painted and was placed on the coastal path near Golwg y Môr.

Page 976: Council agreed to ask Cllr Mark Cole to reconsider his resignation from the Cadwgan board of trustees until the issue of the town signs had been resolved.

16. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei gadwyn.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

17. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Trefnu dyddiad i gyflwyno rhoddion y cyngor: nos Fawrth, 28 Ebrill am 6.00 o'r gloch yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi.

Date for presentation of council grants: Tuesday, 28 April at 6.00pm at the Antur Teifi Conference Room.

(b) Sbwriel wedi ei adael ar hyd y lle.

Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis a Catrin Miles drafod y broblem gyda Mr Huw Williams (adran Ffordd o Fyw y cyngor sir).

Fly-tipping. Cllrs Adams-Lewis and Catrin Miles agreed to discuss the problem with Mr Huw Williams (CCC Lifestyle Services department).

- (c) **Mynegodd y Cyng. Clive Davies ei bryder o weld y ceblau trydanol sydd yn amlwg ac yn ymwthio allan o'r pridd yng Ngardd Brioude. Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis mai ceblau goleuadau oeddynt; cytunodd yntau gysylltu gyda'r Cyng. Llwyd Edwards am ragor o wybodaeth.**

Cllr Clive Davies expressed his concern at the sight of cables protruding from the soil in the Brioude Garden. Cllr Adams-Lewis stated that they were light cables; he agreed to contact Cllr Llwyd Edwards for further information.

- (d) **Cyflwynodd y Cyng. Neal Jones gyfeiriad ar y we sydd yn gwerthu cynnyrch i waredu'r graffiti sydd i'w weld ar hyd y dref.**

Cllr Neal Jones has discovered a website address which has products that might erase the graffiti seen around the town.

- (e) **Gerddi Victoria: Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ymddygiad anystywallt plant yn chwarae pêl-droed o fewn y gerddi ac yn dinistrio blodau ac anharddu'r bandstand sydd ar ei newydd wedd. Cytunodd y Cynghorwyr Clive Davies a Catrin Miles, sydd yn aelodau o fwrdd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Aberteifi, drafod y cwynion gyda phrifathrawes yr ysgol.**

Victoria Gardens: A complaint has been received from a member of the public regarding the unsavoury behaviour of school children playing football within the gardens, destroying newly-planted flowers and vandalising the restored bandstand. Cllrs Clive Davies and Catrin Miles, serving members of the Ysgol Uwchradd Aberteifi governing body, were requested to discuss the matter with the head teacher of the school.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.20yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.20pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date